# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
# 21/03/24

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Rhys Tudur.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gwilym Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:-** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Elgan Sion Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel, Uchelgais Gogledd Cymru) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol, Uchelgais Gogledd Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:-** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7: -** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Llion Williams (Pennaeth Cynorthwyol: Llesiant a Chydraddoldeb) a Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Sasha Williams a Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) fuddiant personol yn eitem 7 oherwydd bod ganddi blant sy’n mynychu ysgol gynradd yng Ngwynedd ac yn elwa o ginio ysgol am ddim.

Nid oedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24

Croesawyd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned a swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd yn cyflwyno adroddiad Chwarter 3 y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio ac yn gwahodd y pwyllgor i graffu perfformiad Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu'r Cynllun Twf ac i dderbyn bod mesurau lliniaru mewn lle i ymateb i'r risgiau.

Wedi i'r Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ddweud gair ar y cychwyn, rhoddodd yr Uwch Swyddog Gweithredol gyflwyniad byr yn gosod y cyd-destun ac yn crynhoi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig. Eglurodd, gan ein bod yn agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, fod yr adroddiad yn edrych yn ehangach na Chwarter 3, gan edrych yn ôl ar y cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod. Yna rhoddodd y Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel drosolwg o'r Rhaglen Ynni.

Ymddiheurodd yr Uwch Swyddog Gweithredol na allai Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd faint o'r 4,200 o swyddi ychwanegol y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad fydd yn dod i Wynedd. Mewn ymateb, eglurwyd bod y 4,200 o swyddi ar draws yr holl brosiectau a rhaglenni. Nid oedd yr ateb wrth law, ond gellid darparu'r ffigurau ar gyfer yr aelodau.

Pwysleisiwyd mai nifer y swyddi i Wynedd, ac o bosib' Conwy ac Ynys Môn, sydd o ddiddordeb i aelodau'r pwyllgor hwn. Nodwyd bod Ward Peblig, Caernarfon ymysg y 10% tlotaf yng Nghymru a bod adroddiad diweddar Sefydliad Bevan ar Dlodi yn Arfon yn nodi bod angen mwy o swyddi sy'n talu'n dda yn yr ardal er mwyn mynd ati i daclo tlodi. Holwyd a oedd yna obaith gwirioneddol bod unrhyw gynlluniau am ddod i safle Parc Bryn Cegin, Bangor, yn enwedig gyda dyfodiad y Porthladd Rhydd i Fôn a sefydlu'r Parth Buddsoddi Economaidd newydd yn y Dwyrain. Nodwyd bod Môn yn gallu cynnig llawer mwy o gymhellion i fusnesau nag y gallwn ni yng Ngwynedd eu cynnig, a holwyd sut y gallwn ninnau sicrhau buddsoddiad yn y rhan yma o Gymru.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Chyngor Ynys Môn o fewn y bartneriaeth, a bod yna berthynas waith rhwng Arweinyddion y ddau gyngor sir drwy'r Bwrdd Uchelgais. Nodwyd fod Tîm Uchelgais Gogledd Cymru yn derbyn diweddariadau gan Gyngor Sir Ynys Môn ar y Porthladd Rhydd.
- Bod Uchelgais Gogledd Cymru bellach wedi ymrwymo i Gytundeb Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni prosiect Parc Bryn Cegin a bod Llywodraeth Cymru wedi penodi tîm ymgynghori i fynd â'r prosiect drwy'r cam caniatâd cynllunio. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y costau lefel uchel ac o ddiwygio'r cynllun ar gyfer y llain a'r prif gynllun, a chredid y byddai drafft terfynol o'r achos busnes amlinellol ar gael erbyn mis Mai.
- Bod rhaid i brosiectau'r Cynllun Twf gynnwys cynllun buddion cadarn sy'n dangos sut mae'r prosiect yn mynd i greu swyddi yn lleol a hyrwyddo sgiliau lleol. Nodwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a gyda'r colegau a'r prifysgolion hefyd, gyda'r nod o sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau ar gael yn lleol pan mae'r prosiectau yn dod yn eu blaenau.
- Bod rhaid cydnabod mai cynllun rhanbarthol yw'r Cynllun Twf ac mai'r math o brosiectau sy'n addas ar gyfer y buddsoddiad yw prosiectau cyfalaf sy'n arwain at

dwf uniongyrchol, ac felly, o bosib', yn ffafrio ardaloedd trefol lle mae'r farchnad gryfaf.

- Y rhennid y pryder ynglŷn ag effaith bosib' y Porthladd Rhydd ar Wynedd. Deellid bod bwriad i geisio osgoi unrhyw '*displacement'* o ardaloedd eraill i mewn i ardaloedd y Porthladd Rhydd, ond roedd angen gwybod sut mae cyflawni hynny.
- Y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn ddiweddaf i ddatblygu rhai o'r lleiniau eraill ar Barc Bryn Cegin. Hyderid bod hynny'n amlygu bod gan y sector breifat ddiddordeb yn y safle hefyd, a byddai sicrhau buddsoddiad neu ddau ar y safle yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial mae'r safle yn ei gynnig.
- Y byddai'r gwaith o ddatblygu Cynllun Economi Gwynedd yn mynd rhagddo dros y flwyddyn nesaf a diau y byddai yna ymgorffori agweddau o'r Rhaglen Twf yn hynny hefyd, sef agweddau ehangach na'r math penodol o fuddsoddiad sy'n berthnasol i'r Rhaglenni Twf yn unig.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach ynglŷn â'r unedau ar Barc Bryn Cegin, nodwyd:-

- Bod bwriad i fanteisio ar y cyfle drwy'r Cynllun Twf i ddarparu unedau parod ar Barc Bryn Cegin.
- Na ellid cadarnhau faint o unedau fyddai'n cael eu codi ar y safle hyd oni fo'r gwaith rhagbaratoi o ran dadansoddi gofynion y farchnad, ayb, wedi'i gwblhau. Nodwyd hefyd bod awydd i geisio treialu unedau fyddai'n cwrdd â gofynion amgylcheddol i'r dyfodol.
- Y gobeithid y byddai'r gwaith rhagbaratoi wedi'i gwblhau erbyn yr Hydref.

Gofynnwyd am farn gonest swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru ynglŷn ag effaith y Porthladd Rhydd. Nodwyd nad oedd yna atebion i ni yng Ngwynedd o ran sut i osgoi '*displacement'* o ganlyniad i'r manteision treth a gynigir i fusnesau sy'n sefydlu yn ardal y Porthladd Rhydd. Nodwyd ymhellach, gan ein bod yn or-ddibynnol ar y sector gyhoeddus yng Ngwynedd, bod gwir angen buddsoddiad o du'r sector breifat. Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r Rhaglen Rhwydwaith Talent Twristiaeth, ynghyd ag esboniad pam bod statws RAG y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn ei chyfanrwydd yn oren. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na chredid mai'r swyddogion yn y cyfarfod oedd y bobl orau i gyfleu barn swyddogol Uchelgais Gogledd Cymru ynglŷn â'r Porthladd Rhydd, ac y gellid dod yn ôl at yr aelodau ar y pwynt yma ar ôl ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Portffolio.
- Bod gan David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo Uchelgais Gogledd Cymru berthynas waith agos iawn gyda swyddogion Cyngor Ynys Môn drwy'r prosiect Porthladd Caergybi.
- Bod ffigurau'r Porthladd Rhydd o ran creu swyddi yn uchel iawn, a diau y byddai rhai o'r swyddi hynny yn mynd y tu hwnt i ffiniau Ynys Môn yn unig.
- Bod Cyngor Ynys Môn yn mynd drwy'r broses cynllunio busnes ar gyfer y Porthladd Rhydd ar hyn o bryd, ac yn sgil hynny, byddai yna lawer mwy o fanylion yn dod trwodd ar gynnwys y cynnig, ac ati. Yn y cyfamser, roedd y Tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y broses fel y gellid ceisio adnabod cyfleoedd i gydweithio gydag Ynys Môn.
- Bod yna gysylltiadau agos yn bodoli eisoes gyda rhai o brosiectau'r Cynllun Twf, sef Hwb Hydrogen Caergybi, Prosiect Morlais ac Egni sydd wedi'u lleoli o fewn ardal y Porthladd Rhydd.

Gan y bu i'r aelod a gododd y cwestiwn ynglŷn â'r Rhaglen Rhwydwaith Talent Twristiaeth a pherfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristaeth golli cysylltiad â'r cyfarfod cyn i'r cwestiwn gael ei ateb, gofynnodd y Cadeirydd i'r Uwch Swyddog Gweithredol ddarparu ymateb ysgrifenedig ar ei gyfer.

Nodwyd:-

- Na ddeellid pam bod y Bwrdd Uchelgais yn cael ei alw'n '*Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*', yn hytrach na '*Bwrdd Uchelgais y Gogledd*' ac efallai y dylai'r neges honno gael ei chyfleu i'r Gweinidog newydd dros yr Economi yn Llywodraeth Cymru.
- Mai Bwrdd Uchelgais yr A55 ydyw mewn gwirionedd gan fod yr amser teithio o rannau helaeth o Wynedd i Gaernarfon yn hirach nag o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy. Roedd y swyddogion wedi cydnabod bod y Cynllun Twf yn ffafrio ardaloedd trefol, ond nid oedd wardiau megis Harlech a Llanbedr yn cynnwys ardaloedd trefol, nac yn agos i unrhyw ardaloedd trefol.
- Ei bod yn siomedig nad oedd Arweinydd y Cyngor na Chyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau'r craffwyr.
- Y dymunid mynegi siomedigaeth hefyd ynglŷn â chynnwys yr adroddiad gan na wneir unrhyw gyfeiriad at Feirionnydd, ac eithrio Trawsfynydd (Cwmni Egino), sy'n bell iawn i ffwrdd ar y funud. Gwelwyd datganiadau yn y wasg yn nodi bod Prif Weinidog Cymru, yn ei hen swydd, yn rhoi arian tuag at ddatblygiadau ym maes awyr Llanbedr, ond nid oedd cyfeiriad o gwbl at hynny yn yr adroddiad. Awgrymwyd y dylid gofyn i'r Gweinidog newydd dros yr Economi a fydd ef/hi yn parhau i edrych ar gael datblygiadau ym maes awyr Llanbedr. Nodwyd bod colled ar ôl yr hen Fwrdd Datblygu Cymru Wledig, oedd yn cael ei ganmol yn arw am ei waith yn ardal Meirionnydd, ond yn anffodus, ni chredid y byddai'r Cynllun Twf yn dod ag unrhyw fuddion i'r rhan honno o Wynedd.

Mewn ymateb i'r sylw olaf, nodwyd y byddai cronfa o £25m ar gael o dan y Prosiect Ynni Lleol Blaengar i gefnogi prosiectau lleol / cymunedol a busnesau bach i ddatgarboneiddio yn fwy effeithiol ac y byddai prosiectau'r Rhaglen Ddigidol sy'n edrych ar wella cysylltedd digidol hefyd yn helpu'r ardaloedd llai poblog.

Holwyd a oedd datganiad diweddar Llywodraeth y DU ynglŷn â phrynu safle Wylfa yn mynd i gael effaith ar Brosiect Trawsfynydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn ogystal â gwneud datganiad ynglŷn â phrynu safle Wylfa, bod Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer lleoli gorsafoedd cynhyrchu ynni niwclear ar ôl 2025, sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygwyr roi eu hunain ymlaen, yn hytrach na bod y Llywodraeth yn enwi safleoedd.
- Ei bod yn ymddangos hefyd bod y polisi yn edrych ar ffyrdd mwy amgen o ddod i mewn i'r farchnad, ac o bosib', yn agor fwy o opsiynau i gwmnïau preifat, megis Cwmni Egino, ddod i mewn.
- Ei bod yn anodd dweud pa effaith y gallai hyn oll ei gael ar Brosiect Trawsfynydd hyd oni cheir mwy o gadarnhad gan Lywodraeth y DU ynglŷn â pha dechnolegau SMR y bwriedir eu defnyddio, ac ydi'r technolegau hynny yn gweddu i Drawsfynydd ai peidio.
- Y credid bod cyfle i Brosiect Trawsfynydd o hyd, gan nad yw'r safleoedd y mae Llywodraeth y DU yn edrych arnynt ar hyn o bryd, ynghyd â safleoedd eraill megis Trawsfynydd, yn mynd i fod yn ddigon i gyrraedd targed y Llywodraeth o ran datblygu capasiti niwclear.

Nodwyd, yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor llawn, y codwyd y mater o brentisiaethau yn y maes adeiladu, ac ati, yng ngholegau Grŵp Llandrillo Menai a'r toriadau oedd yn mynd i gael eu cyflwyno yn nifer y cyrsiau a ddarperir. Holwyd, yn dilyn sylwadau'r aelodau, ac o ystyried y 4,200 o swyddi sy'n mynd i gael eu creu, faint o gydweithio sydd yna â'r darparwyr addysgol yn y tymor byr i baratoi ein pobl ifanc ar gyfer y swyddi hynny.

Awgrymwyd, er gwaethaf y mynegiant a'r dyhead, nad ydi'r math o sefyllfa a welwyd yn ddiweddar gyda Grŵp Llandrillo Menai, er enghraifft, yn awgrymu bod y drafodaeth honno yn digwydd mewn ffordd gydlynus a chyson. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hwn yn bwynt sy'n fyw iawn i Uchelgais Gogledd Cymru. Roedd y Bwrdd Uchelgais wedi anfon llythyr o bryder ynglŷn â'r sefyllfa ac roedd Cwmni Jones Bros Rhuthun, datblygwyr Prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, hefyd wedi codi pryder ynghylch yr un mater.
- Bod yna gysylltiad agos iawn rhwng rhaglenni'r Cynllun Twf a'r elfen sgiliau a chyflogaeth drwy fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn rhan o Dîm Uchelgais Gogledd Cymru. Hefyd, roedd y Bartneriaeth Sgiliau yn cysylltu'n benodol gyda Grŵp Llandrillo Menai i baratoi ac i geisio llunio cyrsiau lle mae yna fylchau ar hyn o bryd er mwyn gwneud yn siŵr y bydd y gweithwyr ar gael pan mae'r cyfleoedd gwaith yn codi.
- Bod y Bartneriaeth Sgiliau yn rhyddhau adroddiad blynyddol sy'n manylu ar y trawsdoriad o swyddi, nid yn unig y pethau arloesol, ond hefyd y crefftau angenrheidiol, ac yn edrych ar y niferoedd sy'n dod trwodd.

Holwyd, o ystyried y wasgfa ar y sector gyhoeddus ar hyn o bryd a'r amgylchedd anodd o ran y sector breifat, a oedd risg na fyddai llawer o'r hyn sydd yn y Cynllun Twf yn cael ei wireddu oherwydd diffyg buddsoddiad o'r tu allan. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr amgylchiadau economaidd wedi newid yn sylweddol ers cytuno'r Cynllun Twf yn 2020, ond bod gan Uchelgais Gogledd Cymru gytundeb gyda'r ddwy lywodraeth bod rhaid denu'r £1bn o fuddsoddiad i mewn i Ogledd Cymru, a hynny drwy gyfraniadau'r sector gyhoeddus a'r sector breifat, a bod hyn oll wedi'i dorri i lawr fesul prosiect.
- Fel rhan o'r broses cynllunio busnes, bod gwaith ariannol manwl iawn yn cael ei wneud i sicrhau bod y buddsoddiadau a amlinellwyd yn wreiddiol yn digwydd, neu'n gallu dod o ffynonellau eraill os yw amgylchiadau'n newid.
- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r sector breifat drwy'r Bwrdd Cyflawni Busnes, sydd â nifer o gysylltiadau a phrofiadau eang o fewn y sector fusnes yn y Gogledd.
- Bod y Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi newydd ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer denu Cynllun Twf a datblygiad economaidd ehangach yng Ngogledd Cymru, sy'n cynnwys egwyddorion buddsoddi ac yn seiliedig ar waith ymchwil a gyflawnwyd ar y cyd â Chwmni Savilles a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.
- Y byddai'r Strategaeth Fudsoddi yn ddogfen allweddol o ran sicrhau buddsoddiad i mewn i'r rhanbarth. Nodwyd bod buddsoddiad wedi'i wneud eisoes drwy'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) ym Mhrifysgol Bangor ac y gobeithid gweld buddsoddiad yn dod i mewn hefyd drwy'r Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, sydd bellach yn weithredol.
- Bod y prosiectau a gafodd eu hasesu a'u datblygu yn wreiddiol yn denu math o fuddsoddiad sydd, efallai, yn golygu buddsoddiad preifat, neu ar y cyd. Nodwyd bod risg ynghlwm â hynny, ac roedd wedi'i gyflwyno fel risg yn yr asesiad risg, ond rhan annatod o'r Cynllun Twf yw ystyried beth yw'r cyfleoedd i'r sector breifat.
- Mai un o'r heriau yw bod y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau strategol amlinellol, y cynlluniau busnes amlinellol a'r cynlluniau busnes llawn yn golygu gwaith trylwyr iawn o ran manylder y cynigion, ond mantais gwneud hynny yw ei fod yn lleihau'r risg drwy sicrhau bod y manylion yn gadarn.
- Bod datblygu'r manylion, gan ystyried beth yw gofynion y farchnad a'r risgiau ymarferol a rheolaethol, ac ati, i bob ffrwd gwaith, yn debygol o greu'r amodau fyddai'n denu buddsoddiad o'r sector breifat, ac yn ymateb i'r risg byw iawn a amlygwyd.

Nodwyd ei bod yn gyfnod anodd i gwmnïau ynni lleol gan fod pris ynni adnewyddol wedi gostwng i 6 ceiniog y cilowat, a bod yna heriau hefyd ynghlwm â chludo ynni o'r ardal leol i'r Grid Cenedlaethol oherwydd gwrthwynebiad pobl i beilonau, ac ati. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y rhagwelid shifft o ran datblygu ynni lleol, o fod yn cyflenwi'r Grid i gynhyrchu ynni'n lleol ar gyfer defnydd lleol. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i gwmnïau ynni werthu'r trydan ar raddfa ychydig uwch i gwsmeriaid lleol, fydd yn arbed arian o gymharu â phe byddent yn ei brynu gan y cwmnïau mawr.
- Y ceisid helpu cymunedau a busnesau lleol i fod yn rhan o brosiectau o'r fath. Byddai Ynni Cymru hefyd yn gweithio yn y maes yma i ddatblygu prosiectau fydd, gobeithio, yn gallu cael eu copïo ar draws y Gogledd.

Holwyd a oedd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio gyda Twf Canolbarth Cymru, o ystyried bod gan De Meirionnydd fwy o gyswllt gyda'r Canolbarth na'r Gogledd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio'n agos gyda Twf Canolbarth Cymru, a bod nifer o raglenni'r Canolbarth a'r Gogledd yn ymdebygu i'w gilydd.
- Y manteisid ar unrhyw gyfleoedd i gydweithio a rhannu ymarfer da, er enghraifft, yn y maes digidol, ac roedd Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth Uchelgais Gogledd Cymru, wedi bod yn cyd-arwain gyda swyddogion o'r canolbarth ar y Launchpad Bwyd-amaeth yn dilyn y cyhoeddiad yng Nghyllideb y Gwanwyn Llywodraeth y DU. Gellid darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer yr aelodau pe dymunent hynny.

Mynegwyd pryder nad oedd prosiectau'r Cynllun Twf yn symud yn eu blaenau mor gyflym ag y dylent, a holwyd a oedd perygl bod y cynlluniau yn mynd i lithro, er enghraifft, Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, oherwydd bod yr amserlen yn rhy faith i ddod â'r cynlluniau i weithrediad. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y deellid y pwynt, ond er i'r Bartneriaeth gael ei sefydlu yn 2012, ni arwyddwyd y Cynllun Twf tan 2020 oherwydd y gwaith o sefydlu'r Weledigaeth Twf i Ogledd Cymru.
- Bod sefyllfa'r economi, materion cynllunio, ayb, a'r angen i gydweithio gydag asiantaethau eraill wedi arwain at lithriadau ar rai prosiectau.
- Bod y ffaith bod dau brosiect bellach yn weithredol yn gam mawr ymlaen i'r Tîm a gobeithid cyflawni rhagor o brosiectau eleni.
- Bod y Cynllun Twf yn gynllun hirdymor dros 15 mlynedd ac nad oedd pob prosiect yn mynd i gychwyn ar yr un adeg.
- Bod y broses cynllunio busnes, sy'n ofyniad gan y Llywodraeth, yn broses eithriadol o fanwl a chymhleth sy'n golygu bod rhaid i bob prosiect fynd drwy gynllun busnes strategol, achos busnes amlinellol ac achos busnes llawn sy'n edrych mewn manylder ar 5 achos, gan gynnwys yr achos economaidd, yr achos masnachol a'r achos ariannol.
- Bod y Tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru wedi'u hyfforddi i wneud y gwaith, ac yn ceisio mynd drwy'r broses mor gyflym ag y gellir. Derbyniwyd adroddiad y llynedd yn nodi bod angen i'r Tîm ganolbwyntio mwy ar symud tuag at fod yn weithredol, ac roedd hynny wedi rhoi ffocws mawr i'r swyddogion. Dargyfeiriwyd adnoddau i brosiectau er mwyn gallu symud rhai prosiectau yn eu blaenau yn gynt ac roedd y Tîm yn edrych am brosiectau sy'n barod i fynd fwy neu lai ac yn gweithio'n ddyddiol i symud y cynlluniau yn eu blaenau i gael cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais er mwyn bod yn weithredol.

Holwyd pa brosiectau eraill y disgwylir eu cyflawni yn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Mewn ymateb, nodwyd y gobeithid y bydd rhagor o brosiectau yn dod ymlaen cyn diwedd y flwyddyn hon, hynny yn cynnwys y Prosiect 4G+, Prosiect Cyn-ysbyty Gogledd Cymru Dinbych a'r Prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

Sylwyd bod paragraff 2.2.4 o'r adroddiad yn nodi bod gweithgaredd caffael ar y Prosiect Cysylltu yr Ychydig % Olaf wedi'i atal nes bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau dyddiad lansio eu hymyrraeth newydd, a gofynnwyd a dderbyniwyd cadarnhad o hynny gan bod yr adroddiad yn nodi y disgwylir iddo gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 i'w lansio yn 2024. Mewn ymateb, nodwyd na chredid bod ymateb wedi dod gan Lywodraeth y DU, ond y gellid gwirio hynny gyda Stuart Whitfield, y Rheolwr Rhaglen Ddigidol, gan ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r aelodau os oes yna ddiweddariad ar y mater.

Mynegwyd pryder ynglŷn â Phrosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, sydd wedi'i nodi'n goch yn y golofn statws RAG yn y tabl perfformiad, a holwyd beth oedd y potensial i'r prosiect hwn symud yn ei flaen. Nodwyd hefyd nad oedd yna unrhyw brosiectau yn Nwyfor a bod prosiectau lleol, a phrosiectau yn y byd amaeth, yn bwysig i ardaloedd gwledig Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i gefnogi Prosiect Glynllifon ac yn cydnabod yr effaith sylweddol fyddai'r prosiect yn ei gael yng Ngwynedd ac ar y sector a'r economi yn rhanbarthol.
- Bod yr amserlen yn llithro, yn bennaf oherwydd y materion cynllunio, ond hefyd oherwydd y dynodiadau statudol, sydd wedi golygu bod raid paratoi arolygon dros gyfnod o rai misoedd, yn hytrach na dros gyfnod byr o amser.
- Pe byddai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno, byddai'n destun sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw oherwydd y dynodiadau statudol, ac felly roedd y safle'n un cymhleth iawn.
- Bod y Coleg wedi penodi tim cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion hyn ac wedi buddsoddi yn y gwaith paratoi, gyda chyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y mis nesaf i gael diweddariad ar y gwaith.
- Y gobeithid y byddai'r mesurau lliniaru sydd yn cael eu hadnabod er mwyn ymateb i'r materion bioamrywiaeth, a hefyd efallai o ran yr asedau hanesyddol sydd o fewn Glynllifon, yn ddigonol i gael eu cefnogi o ran y cynllunio.
- Fel perchennog Parc Glynllifon, bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Coleg i geisio datblygu gweledigaeth hir-dymor ar gyfer Glynllifon ac yn gweld cynllun y Coleg yn rhan bwysig iawn o'r weledigaeth ar gyfer y Parc.

Mynegwyd gobaith y bydd modd i'r genhedlaeth newydd fydd angen magu sgiliau wneud hynny'n lleol yn yr ardal hon yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod sicrhau gweithlu lleol i'r dyfodol yn rhan bwysig o'r cynllun busnes a'r cynllun i reoli'r buddion sy'n dod allan o brosiectau'r Cynllun Twf.
- Y byddai yna lawer o brosiectau ynni yn cael eu creu yn y blynyddoedd nesaf, megis prosiectau môr, prosiectau niwclear a phrosiectau gwynt a solar, ac roedd llawer o waith wedi'i wneud i edrych beth fydd gofynion y sectorau hyn.
- Bod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi gwneud tipyn o waith o gwmpas y sgiliau gwyrdd sydd eu hangen yn y Gogledd, ac yn gweithio'n agos gyda'r colegau a'r prifysgolion i sicrhau bod modd darparu hynny.
- Y byddai llawer o'r sgiliau fydd eu hangen mewn llefydd fel Trawsfynydd neu Wylfa, megis sgiliau mecanyddol a thrydanol, yn debyg iawn i nifer o brosiectau eraill, a byddai yna lawer o gyfleoedd i unigolion ddysgu'r sgiliau hynny a symud ymlaen o un prosiect i'r llall.

Holwyd a oedd y Cynllun Twf ar drac i gyrraedd y targed o fuddsoddi £1bn erbyn 2027/28, fel y nodwyd ym mhroffil y Portffolio yn 2021. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna broffil diwygiedig ym mhapurau'r Pwyllgor, ac ers hynny, bod proffil arall wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais yn eu cyfarfod ar 15 Mawrth.
- Nad oedd y ffigurau newydd wrth law, ond y gellid rhannu linc i'r papur diwygiedig ar y gyllideb gyda'r aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau, a derbyn fod mesurau lliniaru mewn lle i ymateb i'r risgiau.**

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU YSGOLION UWCHRADD CATEGORI 3

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.
Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi:-

- Y dymunai ddiolch i aelodau'r Ymchwiliad am eu gwaith ar yr adroddiad ac am ddod â'r argymhellion gerbron.
- Y comisiynwyd Meirion Prys Jones i gydweithio gyda'r Adran i ail-edrych ar Bolisi Iaith Gwynedd ac y byddai newidiadau cenedlaethol yn gyrru yn y maes yma hefyd, megis yr ymdrech tuag at filiwn o siaradwyr, y cwricwlwm newydd, y drefn gategoreiddio newydd, a p'un ai fydd honno yn dod yn statudol ai peidio, a hefyd Bil y Gymraeg, sydd eto i gwblhau ei thaith drwy'r Senedd.
- Bod ganddi bob ffydd ym Meirion Prys Jones ac yn ei awydd i gynnull ystod eang o randdeiliaid i fwydo i mewn i'r gwaith, ac y dymunai weld y craffwyr yn rhoi eu syniadau hwythau yn y pair pan ddaw cyfle.
- Bod yna waith pwysig i'w wneud o amgylch dwyieithrwydd, dysgu dwyieithog a'n disgwyliadau ni o'r dysgu hwnnw yng Ngwynedd. Byddai hynny, yn ei dro, yn gwneud ein safbwynt ni, fel sir, yn glir iawn i rieni, ac yn cyfarch, gobeithio, yr hyn a nodir yn Argymhelliad 5.
- Bod yna lawer o gydweithio da wedi bod gyda Menter Iaith Gwynedd, Say Something in Welsh, y Coleg Cymraeg ac unigolion fel Anni Llŷn a Tara Bandito i greu digwyddiadau cymunedol ac mewn ysgolion.
- Bod cynnydd mewn dau faes penodol wedi bod yn anodd am y tro, sef yr argymhellion sy'n ymdrin yn benodol â GwE, oherwydd bod y dirwedd cefnogi ysgolion yn cael ei hail-ddychmygu, a'r ysgolion trosiannol, oherwydd y sefyllfa ddigynsail a heriol sydd wedi bod, ac sy'n parhau, mewn un ysgol drosiannol.

Diolchodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Paul Rowlinson, i'r Aelod Cabinet am ei hymateb i bob un o argymhellion yr Ymchwiliad, gan nodi rhai sylwadau, fel a ganlyn:-

<u>Argymhelliad 1</u> – Ei bod yn bwysig bod y data cyfrwng iaith ysgolion yn cael ei gysoni a'i wirio pan fydd yr Adran mewn sefyllfa i wneud hynny gan fod yna ansicrwydd ar hyn o bryd a ydyw'n cael ei gasglu ar sail gyson rhwng y gwahanol ysgolion.

<u>Argymhelliad 2</u> – Ei bod yn bwysig iawn gweithredu ar yr argymhelliad hwn pan fydd y Polisi Iaith Addysg newydd ar waith ac edrychir ymlaen at weld ffrwyth gwaith Meirion Prys Jones ar hyn. Gŵyr pawb mai Gwynedd yw'r sir fwyaf blaenllaw o ran addysg Gymraeg, ond gan fod yna wastad beryg' o fod yn hunan-foddhaus ac o lithro'n ôl, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei roi ar waith.

<u>Argymhelliad 3</u> – Y dymunid diolch i'r Adran am ysgrifennu at CBAC a holwyd a dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r llythyr hyd yma.

Argymhelliad 4 – Mai hwn yw'r argymhelliad allweddol, a diolchwyd i'r Adran am gomisiynu Meirion Prys Jones i gydweithio â hwy.

Argymhelliad 5 – Y derbynnid bod rhaid dilyn trefn yr ysgolion, ond credid bod yr ysgolion yn gofyn am fwy o gefnogaeth gan yr Adran, ac roedd ymateb yr Aelod Cabinet yn bodloni'r argymhelliad.

Argymhelliad 7 – Bod yr ymateb yn cyfeirio at nifer o ffyrdd o hyrwyddo manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod rhaid i'r digwyddiadau hyn barhau yn gyson.

Argymhelliad 9 – Bod ymateb yr Aelod Cabinet yn bodloni'r argymhelliad, ond bod yr argymhelliad hefyd yn cyfeirio at roi cefnogaeth i athrawon dosbarth, yn ogystal â staff yn y canolfannau trochi, ar sut i gyflwyno'r cwricwlwm i hwyr-ddyfodiad sydd ddim yn medru Cymraeg na Saesneg.

Mewn ymateb i rai o sylwadau Cadeirydd yr Ymchwiliad, nodwyd:-

Argymhellion 1 a 2:-

- O ganlyniad i Bolisi Iaith presennol y Cyngor a chwricwlwm dwyieithog yr ysgolion, nad oedd rhai pethau yn ddu a gwyn, a bod gofyn i'r ysgolion eu dehongli, megis nifer y disgyblion sy'n astudio 5 pwnc TGAU yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod y data yn cael ei ddarparu gan yr ysgolion unigol, ac nid gan yr Adran, a bod pob pennaeth yn cadarnhau cywirdeb y data.
- O bosib' bod y frawddeg '*Nid yw'r Adran mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu gwirio'r sefyllfa*' yn awgrymu nad oes unrhyw weithredu wedi bod, ond roedd yr Adran wedi trafod gyda'r penaethiaid ac wedi ceisio cysoni a safoni'r data. Cadarnhawyd bod y data yn gyfredol gan yr Adran ar gyfer pob ysgol ar draws nifer fawr o ddangosyddion.
- O ran gosod targedau, nad oedd bwriad bod yn hunan-foddhaus o gwbl, ond oherwydd bod y Polisi Iaith Addysg yn cael ei ddiwygio, roedd yna nifer fawr o dargedau y byddai'n bosib' eu gosod.

Argymhelliad 3 – na dderbyniwyd ymateb gan CBAC hyd yma a byddai'r Adran yn mynd yn ôl atynt yn dilyn y cyfarfod hwn yn ategu bod aelodau'r pwyllgor hefyd yn disgwyl clywed yr ymateb.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gan gyfeirio at argymhelliad 1, nodwyd y deellid yr anawsterau, ond holwyd sut y bwriadai'r Adran fynd ati i wirio data'r ddarpariaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ei fod yn gwestiwn anodd ei ateb heb bolisi cadarn a chlir mewn lle.
- Bod yr Adran yn ymddiried yn yr ysgolion i adrodd ynglŷn â chyfrwng y ddarpariaeth, ac i gael hynny'n gywir. Ni chredid bod angen i'r Adran ryddhau swyddog i fynd i wirio cywirdeb y data a gonestrwydd ein harweinyddion ysgolion.
- Bod angen canllawiau clir sy'n gosod y disgwyliadau ar bawb fel bod modd i'r cyrff llywodraethol eu dwyn i gyfri' yn unol â'r trefniadau llywodraethiant cywir sydd i fod mewn ysgol.
- Y cymerwyd cam yn ôl er mwyn cymryd camau ymlaen i ddod â phobl hefo ni ac i wrando ar bryderon y rhanddeiliaid ynglŷn â'r cyfleoedd, a hefyd yr heriau, sy'n dod yn sgil Polisi Iaith Addysg.

Mynegwyd y farn bod gwirio'r data yn elfen bwysig o Argymhelliad 1, ac awgrymwyd y dylid gwneud hynny am flwyddyn neu ddwy o leiaf er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn dehongli'r data yn yr un ffordd a bod pawb ar yr un llwybr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Pe gwelid bod unrhyw ddata sy'n cael ei gyflwyno gan ysgol yn anghyson â'r data cwricwlaidd sydd gan yr Adran am yr ysgol honno, y byddai'r swyddogion yn mynd ar ôl hynny'n syth.
- Bod y penawdau yn y daenlen o ran y data sy'n cael ei gasglu yn eithaf cadarn gan ysgolion, megis nifer disgyblion Blwyddyn 10 mewn 2 faes gwahanol sy'n astudio 3 neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu faint sy'n sefyll iaith gyntaf yn y Gymraeg ayb.
- Bod gan yr Adran adnabyddiaeth dda o'r ysgolion drwy'r grwpiau cwricwlaidd, ayb, a bod y data sy'n dod gan yr ysgolion yn gadarn ac yn rymus.
- Mai'r elfen a ychwanegwyd yn sgil y drefn gategoreiddio, ac nad yw'n ddeddf eto, yw nifer y plant sy'n cyrraedd yr hicyn 70%. Roedd angen adnabyddiaeth dda o'r holl ysgolion i wirio hynny'n llawn, a'r pennaeth ar lawr pob ysgol unigol fyddai'n gwybod hynny.

Mynegodd yr aelod a ofynnodd y cwestiwn nad oedd yn hapus gyda'r ateb.

Gan gyfeirio at Argymhelliad 16, nodwyd bod y gwaith gyda'r Gymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) yn amlwg wedi bod yn beth da, ond holwyd pa gyswllt fu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r diffyg adnoddau astudio yn y Gymraeg, nid yn unig ar gyfer Gwynedd, ond ar gyfer y siroedd eraill yng Nghymru hefyd, a beth sydd ar y gweill ganddynt i sicrhau gwelliant. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr adroddiad yn egluro beth sydd mewn lle, gan gynnwys ymrwymiad cwmni Adnodd i ddarparu'r adnoddau gorau bosib' i'r cwricwlwm yn ddwyieithog ac i sicrhau bod y deunydd hwnnw yn cael ei ryddhau ar yr un amser yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bod yna her mewn cael adnoddau sy'n codi o ddydd i ddydd, megis newyddion y dydd, ac ati, yn ddwyieithog, ond bod yr adnoddau ffurfiol, swyddogol sy'n dod o Lywodraeth Cymru yn ddwyieithog.
- Bod popeth ar lwyfan HWB Llywodraeth Cymru yn ddwyieithog a bod y Llywodraeth hefyd wedi sefydlu cwmni Adnodd er mwyn comisiynu adnoddau safonol i gefnogi'r Cwricwlwm.

Nodwyd, er y gallai gweithrediad Argymhellion 2 a 6 gael ei arafu gan na fydd Bil y Gymraeg yn mynd gerbron y Senedd tan fis Mai, na ddylai hynny rwystro unrhyw gamau rhag digwydd o gwbl. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Argymhelliad 2 yn cyfeirio at osod targedau penodol, ond os nad oes yna rywbeth penodol mewn polisi sy'n gosod y targed, nid oes modd ei fesur a gofynnir i'r ysgolion gynyddu a grymuso'r data wrth symud ymlaen.
- Bod Argymhelliad 6 yn ymwneud â'r ddwy ysgol Categori 3T yng Ngwynedd, ac er bod yna weithio cyson gydag Ysgol Tywyn, nid oedd modd herio Ysgol Friars i'r un graddau ar hyn o bryd gan fod yr ysgol honno yn wynebu her eithriadol eleni.
- Bod angen cynllun penodol cyfrifol i symud Bangor ymlaen yn y ffordd briodol, ond roedd yn mynd i gymryd amser i wireddu hynny.

Holwyd beth yn union fyddai rôl Meirion Prys Jones a beth oedd yr amserlen y gwaith. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y bwriedid cynnal sesiynau penodol gyda charfanau gwahanol o bobl dros gyfnod o amser er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a'r cyfeiriad y dymunir symud iddo.
- Bod yr Adran yn gweithio ar amserlen gyda Meirion Prys Jones ar hyn o bryd, gan edrych ar y defnydd mwyaf rhesymol o'i amser a ble i gynnal y digwyddiadau.

- Bod bwriad i geisio cynnal rhai digwyddiadau ar ddiwedd Tymor yr Haf fel y gellir symud ymlaen ac adeiladu ar y gwaith fydd wedi digwydd yn ystod Tymor yr Hydref.
- Y byddai amserlen bendant yn cael ei rhannu gyda'r aelodau maes o law.

Nodwyd y byddai'r aelodau'n gwerthfawrogi gweld yr amserlen, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau.

Cyfeiriwyd at y sylw yn yr ymateb i Argymhelliad 1 y rhoddir sylw i'r Gymraeg ac ethos ysgolion ymhob ymweliad a gynhelir i ysgolion, a holwyd a oedd hon yn drefn oedd wedi'i ffurfioli, boed hynny gan yr Awdurdod neu GwE. Mewn ymateb, nodwyd o bosib' y dylai agweddau'r Gymraeg fod yn bwynt penodol ar agenda pob ymweliad ag ysgol.

Gan dderbyn bod yr Adran wedi penderfynu peidio gweithredu ar Argymhelliad 2 hyd oni fydd y Polisi Iaith Addysg newydd ar gyfer Gwynedd wedi ei lunio, holwyd a oedd bwriad i edrych ar dargedau interim. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd bwriad i wneud hynny ar hyn o bryd ac mai'r bwriad fyddai parhau gyda'r sefyllfa fel y mae yn ystod y cyfnod ymgynghori, a grymuso'r targedau yn dilyn hynny. Byddai hynny hefyd yn rhoi cyfle i bethau eraill sydd yn yr arfaeth, megis Bil y Gymraeg, weithio ei ffordd drwy'r Senedd.

Gan gyfeirio at Argymhelliad 12, nodwyd bod y cynllun i ddarparu gwersi Cymraeg i athrawon yn un clodwiw, ond holwyd a fyddai modd gwneud mwy i hyrwyddo'r cynnig, yn hytrach na darparu ffurflenni cais ar gyfer yr ysgolion yn unig. Mewn ymateb, nodwyd bod hynny'n bwynt teg, ond bod angen i bobl fod yn dymuno caffael yr iaith ac yn gwneud hynny o'u gwirfodd. Er hynny, gellid trafod ymhellach a gweld i ba raddau y gellir annog pobl i fod yn rhan o'r cynllun, yn hytrach na'i adael i siawns, fel mae'r frawddeg yn yr adroddiad yn amlygu.

Nodwyd:-

- Y croesawid fformat yr adroddiad sy'n cynnwys sylwadau cryno gyferbyn â phob argymhelliad.
- Y dymunid llongyfarch yr Adran ar gomisiynu Meirion Prys Jones, sy'n arbenigwr caffael iaith profiadol iawn, a bod y craffwyr yn edrych ymlaen at gydweithio gydag ef.
- Bod aelod wedi nodi'n gynharach ei anfodlonrwydd gydag ymateb y swyddog i'w sylw ynglŷn ag Argymhelliad 1, a phwysleisiwyd bod angen dilysu, cysoni a chywiro data cyfrwng iaith ysgolion ar gyfer heddiw, ac nid disgwyl hyd nes y bydd y Polisi Iaith Addysg newydd yn ei le.
- Y dywedwyd yng ngyfarfod 6 Gorffennaf 2023 o'r Cyngor "*O edrych ar ffigurau ysgol gyfan ar draws y sir, yn unol â diffiniad y drefn gategoreiddio, mae 'na dros 70% o blant uwchradd Gwynedd yn cael o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol cwricwlaidd ac allgyrsiol yn Gymraeg. Heb y ddwy ysgol drosiannol, y rhai 3T, mae dros 90% o blant uwchradd Gwynedd yn cael o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol cwricwlaidd ac all-gyrsiol yn y Gymraeg*". Fodd bynnag, amheuid a oedd hynny'n wir.
- Bod yr ymateb i Argymhelliad 1 yn nodi bod yr Adran eisoes yn casglu data cyfrwng iaith ar gyfer ysgolion uwchradd yn flynyddol a bod y data ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'i gasglu a'i goladu, a gofynnwyd am weld y data hwnnw cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor hwn, yn cynnwys, nid yn unig y gweithgareddau, ond hefyd y gwersi a'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r sir.

Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r swyddogion yn rhannu'r data gyda'r craffwyr yn dilyn y cyfarfod hwn, cyn belled â bod yr ysgolion yn gyfforddus gyda hynny.

Nodwyd:-

- Y croesawid gweld y data ac y mynnid ei fod yn cael ei wirio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Heb ddata dibynadwy, ni ellid gosod y targedau, a byddai disgwyl am

ddyfodiad y Polisi Iaith newydd yn golygu y byddai blwyddyn gyfan o ddata a chyfle i symud pobl ymlaen wedi'i golli.

- Y pryderid bod y Polisi Iaith newydd yn cael ei ddefnyddio fel rhyw fath o esgus i oedi a gwneud dim byd.
- Y pryderid o deall bod capasiti adrannol i fonitro targedau unigol manwl yn brin ar hyn o bryd, a dylid dechrau cynllunio er mwyn sicrhau'r capasiti hwnnw.
- Bod yr enghreifftiau o gydweithio â sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd y cyfeirir atynt yn yr ymateb i Argymhelliad 11 braidd yn ad-hoc ac y dylid darparu rhaglen ffurfiol o weithgareddau gan fod yma sgôp aruthrol i gydweithio er lles y Gymraeg.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran capasiti, ei bod yn ofynnol i'r Adran ail-edrych ar ei strwythurau fel rhan o'r adolygiad presennol o'r haen ganol dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Deellid y sylw a byddai'r Adran yn edrych arno wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, credid bod yr ymateb yn adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol o ran capasiti, yn hytrach nag yn adlewyrchiad o ble y byddem yn deisyfu bod wrth symud ymlaen ac ail-strwythuro'r Adran.
- O ran y trafodaethau ynglŷn â'r gweithgareddau, y cafwyd trafodaeth yn y Fforwm Iaith o ran un o ddeilliannau'r CSGA (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) sy'n ymwneud â defnydd o'r iaith yn gymdeithasol, ayb, ac ymestyn y cyfleoedd. Roedd yn ddyddiau cynnar iawn yn y drafodaeth honno, ond roedd y sylw y dylid cynllunio rhaglen strwythuredig o weithgareddau, yn hytrach na'i adael i siawns, yn un digon teg. Dyma'r math o beth a drafodwyd yn y Fforwm Iaith beth bynnag, ac er na ellid rhoi sicrwydd y byddai rhaglen weithgareddau ar gael ar unwaith, gobeithid gallu adeiladu ar hynny o'r pwynt hwn ymlaen.

Awgrymwyd y dylid cynnwys trydedd golofn yn y tabl yn yr adroddiad yn nodi'r camau nesaf. Cytunwyd i wneud hynny.

Nododd aelod fod ganddo ffydd yn y data sy'n cael ei gyflwyno gan yr ysgolion a'i fod yn hapus gyda'r atebion a roddwyd gan y swyddogion.

Nodwyd:-

- O ran Argymhelliad 11, sy'n ymwneud â chyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, ei bod yn bwysig cynnig y math hynny o gyfleoedd i bobl ifanc y tu allan i'r gyfundrefn addysg ac y byddai'r newidiadau yn strwythur yr Adran yn rhoi'r gwasanaeth mewn lle da i wneud y gwaith hwnnw.
- Efallai y dylid edrych yn fwy manwl ar Argymhelliad 11 wrth lunio rhaglen waith y pwyllgor hwn.
- O ran capasiti, cwestiynwyd yr angen i geisio neilltuo rhagor o adnoddau i wirio'r data, pan nad oes angen ei wirio beth bynnag, a hynny efallai ar draul gwaith arall, megis cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.
- O gael polisi cadarn a diamwys yn y man, byddai yna lai o angen gwirio'r data, ac o ddynodi ein hysgolion yng Ngwynedd yn ysgolion Cymraeg hyd y gellir, byddai yna lai o angen monitro, gan y byddai Estyn yn gwneud y gwaith drosom.
- Bod Argymhelliad 4 yn cyfeirio at ail-edrych ar Bolisi Iaith Addysg Gwynedd yn sgil newidiadau cenedlaethol yn y maes, ond nid y newidiadau polisi hynny sy'n achosi pryder, eithr y shifft iaith sy'n digwydd yn y gymdeithas.
- Y dylid dileu Argymhelliad 7 yn llwyr gan nad oes angen hyrwyddo'r budd o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg pan mae yna bolisi cadarn mewn lle.
- Bod Argymhelliad 8 yn berthnasol i bobl ifanc sy'n mynd i brifysgol yn unig, ac felly i raddau helaeth, yn amherthnasol gyda golwg ar bolisi iaith, gan nad oes yna shifft iaith ymysg y dosbarth canol uwch. Mae'r shifft iaith yng Ngwynedd yn digwydd

ymysg plant ar lefel sy'n is i lawr yr hierarchaeth gymdeithasol, gan fod ystadegau'r Cyfrifiad yn dangos bod yna ddwywaith gymaint o blant o gartrefi Cymraeg dosbarth gweithiol nad ydynt yn medru'r Gymraeg o gymharu â phlant o gartrefi Cymraeg dosbarth canol. Gan hynny, mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at ddarparu adnoddau lle nad oes eu hangen.

- Bod yr ymateb i Argymhelliad 14 yn cyfeirio at gynnwys penaethiaid yn y broses '*wrth'* adolygu'r Polisi Iaith, ond onid gweithredu'r polisi, yn hytrach na llunio'r polisi, yw eu swyddogaeth hwy?
- O ran Argymhelliad 16, ni chredir bod cyfrwng yr adnoddau astudio yma nac acw ac y dylai ein ffocws fod ar gyfrwng llafar y dysgu.
- O ran Argymhelliad 11, bod y cydweithio er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc i'w groesawu.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau, nodwyd:-

- Bod yr her o ran caffael yr iaith a defnydd o'r iaith o fewn ysgolion yn her wirioneddol y mae'r ysgolion yn ei hwynebu bob dydd. Cytunid y dylid cynnwys y shifft iaith yn yr ymateb i Argymhelliad 4, gan roi sylw iddo hefyd wrth i'r gwaith gyda Meirion Prys Jones symud yn ei flaen.
- O ran Argymhelliad 14, bod angen trafod gyda'r ysgolion a dod â hwy gyda ni ar y daith gan sicrhau eu bod yn deall beth sy'n gyrru'r newid a pha arweiniad sy'n cael ei roi gan yr Awdurdod i'r gwaith.
- Bod y penaethiaid yn randdeiliaid pwysig ac ystyrir y byddai'n annoeth peidio eu cynnwys yn y broses o lunio polisi gan mai hwy sy'n deall beth yw'r heriau ar lawr ysgol.
- Y cytunid bod defnydd yr iaith ar lawr dosbarth yn llawer pwysicach nag adnoddau ysgrifenedig, er bod yr adnoddau astudio hynny yn eithriadol bwysig hefyd.

Gwahoddwyd Cadeirydd yr Ymchwiliad i gyflwyno sylwadau cloi. Nodwyd:-

- Y rhoddwyd pwyslais yn yr adroddiad ar adnoddau oherwydd bod y disgyblion yn yr ysgolion yn adrodd mai'r diffyg adnoddau yw un o'r rhesymau pam eu bod hwy, neu eu ffrindiau, yn dewis cyfrwng Saesneg.
- Y dymunid diolch i'r pwyllgor am eu sylwadau, sy'n rhoi mwy o ddeunydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion ei ystyried wrth symud ymlaen, ac edrychid ymlaen at weld y Polisi Iaith Addysg newydd.
- Mai un o'r materion allweddol a godwyd yn ystod yr Ymchwiliad oedd bod y diffiniadau o addysg Gymraeg yn rhwystr i ysgolion, a phwysleisiwyd bod rhaid gweithredu ar hyn ar fyrder, heb ddisgwyl am ffrwyth gwaith Meirion Prys Jones.
- Nad oedd aelodau'r Ymchwiliad yn amau proffesiynoldeb na gonestrwydd y staff sy'n casglu'r data cyfrwng iaith, eithr yn credu bod dehongliadau anghyson rhwng gwahanol ysgolion yn awgrymu nad yw'r data yn hollol ddibynadwy.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gofyn i'r Adran Addysg ddarparu data cyfrwng iaith darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd i aelodau'r pwyllgor.**

## 7. PRYDAU YSGOL AM DDIM

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Addysg ar y prosiect prydau ysgol am ddim yn sgil ymestyn y cynllun ar draws y sector cynradd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd y dymunid diolch i Lywodraeth Cymru am ddod â'r prosiect hwn i fodolaeth, drwy gytundeb â Phlaid Cymru, a llongyfarchwyd Cyngor Gwynedd ar ddosbarthu'r cynllun mor

gyflym i bob ysgol yng Ngwynedd. Diolchwyd hefyd i'r Gwasanaeth am y gwaith o addasu / uwchraddio ceginau'r ysgolion, ac yn arbennig i holl staff y ceginau a'r cogyddion am eu gwaith caled.

Nodwyd nad oedd ysgogiad i rieni plant sy'n gymwys ar gyfer cinio ysgol am ddim gyflwyno cais i'r Awdurdod gan fod y cinio ysgol bellach ar gael am ddim i bob plentyn beth bynnag, ac felly bod yr ysgol neu'r sir yn colli allan yn ariannol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y pwynt yn un dilys, ond bod y cais gan rieni yn gais am fudd-daliadau yn gyffredinol, yn cynnwys grant gwisg ysgol, adnoddau, ayyb, yn hytrach nag yn gais am ginio ysgol yn unig.
- O ran y ffordd mae'r Awdurdod yn cael ei ariannu, bod yr ysgolion yn derbyn swm o arian y pen ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Bod yr arolwg yr haf diwethaf wedi amlygu mai Gwynedd yw'r sir gyda'r lefel isaf o blant yn cymhwyso am y budd-daliadau hyn.
- Bod Tîm o fewn yr Adran yn cysylltu â theuluoedd i sicrhau bod pawb sy'n gymwys i gael eu cofrestru am ginio am ddim yn gwneud hynny.
- Nad oedd rhai rhieni yn ymwybodol o'r hawl i ginio am ddim, ond roedd mwy a mwy o bobl yn dechrau dod i wybod amdano erbyn hyn.

Nodwyd ei bod yn bwysig pwysleisio wrth rieni bod cyflwyno cais am ginio am ddim yn agor y drws i fanteision eraill heblaw hynny.

Nodwyd ei bod yn galonogol gweld o'r adroddiad bod rhai penaethiaid o'r farn bod ymddygiad, ymroddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella yn y prynhawniau o ganlyniad i dderbyn cinio ysgol.

O ran yr her o recriwtio staff i'r Gwasanaeth Arlwyo, holwyd a oedd y cynllun i becynnu swyddi, er enghraifft, gweithio mewn cegin ysgol dros amser cinio a rhoi gofal yn y pnawn, wedi dwyn ffrwyth o gwbl. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod recriwtio'n gymhleth gan fod meysydd fel Addysg a Gofal yn ceisio denu staff o'r un pwll o bobl.
- Bod y posibilrwydd o greu cynllun bwriadus i becynnu swyddi yn isel iawn yn y sefyllfa anodd sydd ohoni, ond bod elfen o hynny yn digwydd eisoes wrth i bobl ddewis gweithio mewn mwy nag un swydd er mwyn cynyddu eu horiau. Er hynny, roedd yn dod yn fwy anodd dod o hyd i bobl sy'n fodlon teithio o un sefyllfa waith i'r llall, a hynny o bosib' heb gar.

Holwyd a fwriedid dwyn pwysau gwleidyddol ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y prosiect prydau ysgol am ddim i'r sector uwchradd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hyn yn flaenoriaeth i'r Aelod Cabinet Addysg, ac y byddai'n dwyn pwysau mewn unrhyw ffordd y gallai, gan gynnwys yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gweinidog Addysg a Deilyddion Portffolio Addysg y Gogledd.
- Bod pryder y bydd teuluoedd cenhedlaeth o blant, sydd heb gof erioed o dalu am ginio ysgol, yn cael eu taro gan hynny wrth i'w plentyn gyrraedd Blwyddyn 7.

Holwyd beth fyddai'n digwydd wedi i'r cynllun presennol ddod i ben yn 2025. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn eto'n flaenoriaeth i'r Aelod Cabinet ac y byddai unrhyw danseilio i'r cynnig sy'n digwydd rŵan yn ei phryderu'n fawr, ac yn gam sylweddol yn ôl.

Holwyd a roddir ystyriaeth i ansawdd y prydau ysgol, gan hefyd geisio cadw'r budd yn lleol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y darperir holiaduron rheolaidd yn ymwneud ag ansawdd y bwyd.
- Nad oedd caffael lleol bob amser yn ymarferol o safbwynt cost, ond y gwneid pob ymdrech i wneud hynny o fewn y rheolau caffael eithaf caeth sydd yn eu lle ar hyn o bryd.

Llongyfarchwyd yr Adran ar gyflwyno'r prosiect prydau ysgol o flaen yr amserlen.

Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi bod 17% o'r prydau a ddarperir yn hPYD (Hawl i Prydau Ysgol am ddim) ers cyflwyno'r cynnig ym mhob ysgol ym Medi 2023 a holwyd a oedd modd tracio'r ffigwr yma dros, dyweder, y 5 mlynedd ddiwethaf, gan barhau i'w dracio i'r dyfodol fel bod unrhyw ostyngiad yn y niferoedd yn cael ei amlygu a chamau yn cael eu cymryd i gyrraedd y teuluoedd hynny.  Mewn ymateb, nodwyd, gan fod ffactorau cyllidol o ran ariannu ysgolion a chefnogaeth i'r gwasanaethau addysg yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau am ddim, bod yr Awdurdod eisoes yn tracio'r data yn ofalus er mwyn sicrhau ein siâr o unrhyw gyllideb sydd ar gael ar gyfer cefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus yn y sir.

Awgrymwyd y gallai'r Aelod Cabinet ofyn i'r Gweinidog Addysg ystyried a yw cinio ysgol am ddim yn parhau i fod yn fesurydd priodol o gofio bod cinio ysgol ar gael am ddim i bawb bellach.

Nodwyd bod yr Adran Gyllid yn edrych ar hwyluso eu trefniadau o ran hawlio gwahanol fudd-daliadau ac awgrymwyd y gellid cynnwys ceisiadau am fudd-daliadau ym maes addysg fel rhan o hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.10yb a daeth i ben am 3.10yp.

Cadeirydd